CYFANSODDIAD GWREIDDIOL Y GRWPIAU LLYWIO A'R GWEITHGORAU

Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd

Roedd yr aelodau gwreiddiol yn cynnwys cynrychiolydd o bob un o'r 11 Gweithgor (isod), a chynrychiolydd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Prif nod y Grŵp Llywio oedd darparu cyngor a gwybodaeth ynglŷn â'r broses a chynhyrchiad CGB Gwynedd (Natur Gwynedd).

Gweithgorau

Roedd y Gweithgorau yn cynnwys 4 grŵp cynefin, 4 grŵp rhywogaeth, a 3 grŵp cymunedol. Nod dechreuol y Gweithgorau oedd drafftio rhestr o rywogaethau a chynefinoedd posibl i'w cynnwys yn CGB Gwynedd, a darparu ffynhonnell o wybodaeth ac arbenigedd er mwyn cynhyrchu cynlluniau gweithredu rhywogaethau a chynefinoedd. Cafodd cynrychiolydd o bob Gweithgor ei h/ethol i fod ar y Grŵp Llywio. Y gobaith oedd y byddai hyn yn gweithredu fel system ddwyffordd er mwyn bwydo gwybodaeth i fyny i'r Grŵp Llywio ac yna bwydo gwybodaeth yn ôl i lawr i'r Gweithgorau.

Ymunodd unigolion â'r Gweithgorau ar wahanol gyfnodau yn y broses, a chwarae rolau amrywiol yn y broses o gynhyrchu CGBG. Er enghraifft, ymunodd nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig o Brifysgol Cymru Bangor ar ôl sefydlu'r Gweithgorau gwreiddiol, a hwy a ysgrifenodd y mwyafrif o'r cynlluniau gweithredu rhywogaethau ar gyfer y Gweithgor Mamaliaid, Pysgod, Ymlusgiaid ac Amffibiaid. Roedd llawer o'r aelodau yn gweithredu fel cysylltiadau yn unig am gyngor neu wybodaeth, cynnig sylwadau ar yr CGC a'r CGRs drafft, neu ysgrifennu un neu nifer o gynlluniau ar gyfer CGBG.

Fersiwn 1, 2004

CGB = Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGBG = Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd,
CGR = Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, CGC = Cynllun Gweithredu Cynefin